

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws ofalgar, Gymreig a diogel lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Maent yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r gefnogaeth ddiflino a ddarperir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn dwysáu eu balchder o'u hysgol a'r gymuned ehangach ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae athrawon yn cydweithio i gynllunio cwricwlwm cyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm sy'n helpu i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan ac i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r modd mae'r staff, ynghyd â'r disgyblion, yn datblygu gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar sicrhau profiadau ysgogol a chreadigol, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynaf yn yr ysgol goedwig. Er hynny, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod yr holl disgyblion yn cael her briodol wrth ddysgu, ac i wneud dewisiadau dros eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a'r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Mae staff ymroddedig, sy'n cydweithio â'i gilydd yn dda fel tîm, yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

# Argymhellion

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu, ac i weithio'n fwy annibynnol

A2 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion, a bod adborth yn eu helpu i wella'u dysgu ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu gweithgareddau yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar sicrhau profiadau ysgogol a chreadigol yn enwedig ar gyfer y disgyblion hŷn yn yr ysgol goedwig, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwyieithog sy'n cyflwyno gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarthiadau sylfaen. Ar ddiwedd y cyfnod, caiff disgyblion ddewis parhau â'u haddysg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol. |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 87 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 (Dros dro)<br>01/01/2024 (Parhaol) |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Rhagfyr 2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.